Community Foundation Wales

Sefydliad Cymunedol Cymru

# Adroddiad Prosiect Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

## 2022

Pears Foundation

The Moondance Foundation

Cronfa Gymunedol Community Fund

# Cynnwys

01
Crynodeb gweithredol

03
Cyflwyniad

05
Yr hyn rydym wedi'i ddysgu

08
Casgliad

09
Beth nawr?

# Crynodeb gweithredol

## Fel cyllidwr lleol o Gymru, mae'r tîm yn Sefydliad Cymunedol Cymru yn rhan o'r trydydd sector yng Nghymru. Mae'n bwysig i ni fel sefydliad ein bod yn darparu'r cyllid sydd ei angen ar grwpiau yng Nghymru i fynd i'r afael â'r materion sy'n bwysig iddynt.

Mae ein tîm grantiau, yn benodol, yn sgwrsio'n gyson â staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr sy'n chwilio am gyllid i'w helpu i wasanaethu eu cymunedau'n well. Mae'n hollbwysig ein bod yn gweithredu ar yr hyn a glywn a cheisio'n gorau i ddod o hyd i ddatrysiadau i'r heriau hynny.

Un o'r heriau hynny, sef y diffyg cyllid sy'n dod i Gymru, yw'r rheswm ein bod wedi sefydlu'r prosiect Ymddiriedolaethau a Sefydliadau hwn ac felly'n ganolbwynt i'r adroddiad hwn. Nid yw'r mater hwn yn un newydd i Gymru, gan iddo fod yn destun sawl adroddiad yn y gorffennol. Roeddem am ddysgu mwy gan grwpiau'r trydydd sector yng Nghymru ac Ymddiriedolaethau a Sefydliadau'r DU er mwyn gweld a oedd posibl i ni nodi'r gwir achos a dod o hyd i ddatrysiad os yn bosibl.

Gwnaeth Cronfa Gymunedol y Loteri Cenedlaethol ein cefnogi i weithio gydag Ymddiriedolaethau a Sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn y DU a Sefydliad Pears, i gyllido elfen Dysgu Gweithredol a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi croestoriad bach o'r trydydd sector yng Nghymru i dreialu ffordd newydd o weithio.

Lansiwyd y prosiect hwn ar ddechrau 2020 ond effeithiwyd arno gan bandemig y Coronafeirws, a oedd yn golygu y bu'n rhaid i ni newid ein ffordd o weithio gydag Ymddiriedolaethau a Sefydliadau i ddull ymchwilio desg a gwnaethom ohirio dyddiad dechrau'r prosiect Dysgu Gweithredol nes 2021. Trwy hap, rhoddodd y ffordd newydd hon o weithio y cyfle i ni ganolbwyntio'n fwy ar wefannau, tudalennau'r Comisiwn Elusennau ac adroddiadau blynyddol cyllidwyr na fyddem wedi ystyried ei wneud fel arall.

Gwnaethom ddarganfod, yn gynnar iawn, rhywbeth a oedd yn nodwedd gyson ar draws y rhan fwyaf o'r Ymddiriedolaethau a'r Sefydliadau yr edrychom arnynt. Yn sgil ein gwaith ymchwil, gwelwyd fod Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, ar y cyfan, ond yn cyllido grwpiau sydd wedi'u cofrestru fel elusennau ac nad ydynt yn debygol o gyllido grwpiau nad ydynt wedi sefydlu eu hunain gymaint, ac felly'n llai o faint o ran incwm.

I'r gwrthwyneb, gwyddom nad yw'r rhan fwyaf o'r grwpiau yng Nghymru wedi'u cofrestru fel elusennau a'u bod, fwy na thebyg, yn grwpiau bach iawn a lleol iawn, ac felly ar begwn arall y sbectrwm yn gyfan gwbl.

Cafodd yr hyn a ddysgwyd yn sgil y gwaith ymchwil ei gefnogi gan y prosiect dysgu gweithredol lle, ar gyfer trawstoriad o'r grwpiau, roedd yn amlwg nad oeddent yn gymwys i gael y cyllid a oedd ar gael gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau yn y DU.

Fel y wlad fwyaf difreintiedig ym Mhrydain, ac yn ystod cyfnod o galedi dyfrifol wrth i'r argyfwng costau byw waethygu, mae'n bwysig ein bod yn dod o hyd i ffordd o gefnogi'r sector yn well a fydd yn cadw'n cymunedau gyda'i gilydd.

Rydym yn annog ymddiriedolwyr/aelodau pwyllgor a chyfarwyddwyr grwpiau trydydd sector yng Nghymru i ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn, wrth gynnal adolygiad cyflawn o'u sefydliad o'r camau sefydlu i'r twf yn y dyfodol a'r gallu i godi arian yn yr hirdymor, ar yr un pryd.

Ystyriwch a allai strwythur eich sefydliad eich cynnal a'r hyn y gallai fod ei angen arnoch, o bosibl, er mwyn sicrhau y gallwch barhau i wasanaethu eich cymuned. At hyn, credwn fod meithrin cydberthnasau cryf ac ystyrlon ag eraill yn allweddol. Dewch i wybod eich cryfderau, rhannwch eich sgiliau a'ch gwybodaeth er mwyn cefnogi eraill, byddwch yn onest ac yn barod i ddysgu oddi wrth eraill, dibynnwch ar sgiliau pobl eraill pan fydd angen i chi wneud hynny, gan gynnwys gweithio gydag elusen fwy o faint er mwyn iddynt arwain prosiect mewn partneriaeth â chi.

Os ydych yn elusen fawr, gwnewch hynny hefyd. Ystyriwch yr hyn y gall y grwpiau llai ei wneud sydd, o bosibl, yn anoddach i chi, gan ddefnyddio gwybodaeth leol, er enghraifft.

Mae'n amser cydweithio i greu trydydd sector sy'n fwy cydlynol, sy'n gwerthfawrogi gwaith eraill ac sy'n croesawu cyfleoedd i gydweithio yng Nghymru.

# Cyflwyniad

## Yn 2020, gyda chefnogaeth a chyllid hael gan y Gronfa Gymunedol y Loteri Cenedlaethol, Sefydliad Pears, Sefydliad Moondance a dyngarwyr unigol, gwnaethom greu'r prosiect Ymddiriedolaethau a Sefydliadau er mwyn ein helpu i ddeall y naratif roeddem yn ei glywed dro ar ôl tro wrth siarad â grwpiau trydydd sector yng Nghymru a chyllidwyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru yn well.

Y materion ailadroddol a ddeilliodd o'r sgyrsiau hyn oedd:

- Nodwyd fod cynrychiolaeth isel o Gymru o fewn portffolios wrth siarad â chyllidwyr.
- Mae diffyg gwybodaeth am gyfleoedd cyllido sydd ar gael o fewn grwpiau trydydd sector yng Nghymru.
- Mae ymchwil yn dangos nad yw Cymru yn cael ei chynrychioli'n ddigonol a'i bod yn cael llai o gyllid y pen o'r boblogaeth er mai hi yw gwlad dlotaf y DU.

Mae'r trydydd sector yng Nghymru yn colli allan, ond nid problem newydd yw hon. Yn 2015, lluniodd Sefydliad Garfield Weston adroddiad - An Insight into the Future of Charity Funding in Wales. Edrychodd yr ymchwil ar effaith toriadau yng nghyllid y llywodraeth ar incwm a gwasanaethau a sut roedd sefydliadau yn mynd i'r afael â'r materion a ddaeth i'r amlwg yn sgil y newid yn yr amgylchedd gyllido. Ei nod oedd darparu tystiolaeth er mwyn llywio gwaith y cyllidwyr a oedd â diddordeb mewn cefnogi a chryfhau'r sector elusennol yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn dilyn ymchwiliad a chyfnod o ymchwilio ac ymgynghori - Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau. Aeth yr adroddiad hwn i'r afael â'r heriau y mae'r celfyddydau yng Nghymru yn eu hwynebu i greu refeniw masnachol a chynyddu incwm gan ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Nodwyd yn y ddau adroddiad bod y trydydd sector yng Nghymru wedi ei ffurfio ar y cyfan o sefydliadau bach a chanolig. Gwnaed argymhellion yn y ddau adroddiad bod angen i'r grwpiau eu hunain ddod yn fwy creadigol wrth ystyried y ffordd y maent yn rhedeg eu gwasanaethau ac y dylent fuddsoddi i uwchsgilio eu staff, yn enwedig o ran dod o hyd i ddulliau amgen o greu incwm.

Gwnaed argymhellion ar gyfer cyllidwyr yn y ddau adroddiad hefyd, gyda Sefydliad Garfield Weston yn awgrymu y dylai cyllidwyr ystyried rhoi cefnogaeth ychwanegol i wella anghenion twf sefydliadol grwpiau yng Nghymru a galwodd Llywodraeth Cymru ar gyllidwyr i feithrin dull mwy cytbwys i sicrhau bod y cyllid y tu allan i Lundain a de ddwyrain Lloegr yn fwy teg.

Ymddengys nad oedd yr her yn un na ellir ei gorchfygu. Roedd angen buddsoddi yn y trydydd sector yng Nghymru er mwyn uwchsgilio grwpiau o ran cryfder sefydliadol a gwella'r wybodaeth am gyllid sydd ar gael. Ynghyd ag anogaeth i gyllidwyr wella taenu'r grantiau yn eu portffolio i ardaloedd nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, byddech wedi disgwyl gweld cynnydd yn lefelau'r cyllid sy'n dod i Gymru a gwell cysylltiadau rhwng Cymru a chyllidwyr y tu allan i Gymru. Ond yn anffodus, nid yw'r naratif rydym yn ei glywed o hyd wedi newid fawr ddim mewn gwirionedd.

Yn ein hymchwil ein hunain a gafodd ei gynnal cyn y pandemig ac a gyhoeddwyd yn ein hadroddiad Yn Uchel ac yn Groch ym mis Medi 2020, rydym yn clywed am heriau gwneud cais i'r Ymddiriedolaethau a'r Sefydliadau unwaith eto. Dywedodd bron hanner (48%) y rhai y gwnaethom eu cyfweld nad ydynt yn gwneud cais i gyllidwyr y tu allan i Gymru. Honnodd rhai nad oeddent wedi cael unrhyw lwyddiant nac wedi cael fawr ddim adborth, a dywedodd eraill nad ydynt yn gwybod lle i ddod o hyd i gyllid ac nad ydynt chwaith yn deall am beth y mae'r cyllidwyr yn chwilio.

# Yr hyn rydym wedi'i ddysgu

## Nod ein Prosiect Ymddiriedolaethau a Sefydliadau oedd ceisio dod o hyd i'r rheswm pam nad yw'r naratif wedi newid a cheisio nodi datrysiadau a fydd yn helpu'r trydydd sector yng Nghymru i oresgyn yr her.


Roedd y data ar Borth Data'r Sector Gwirfoddol yn allweddol i gynyddu ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n ffurfio'r trydydd sector yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r data hyn, ac fel rhan o'r prosiect Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, gwnaethom gynnal gwaith ymchwil desg manwl ar oddeutu 400 o gyllidwyr, eu gwefannau, tudalennau Comisiwn Elusennau ac Adolygiadau Blynyddol a chynnal sgyrsiau â nhw. Gwnaeth yr ymchwil hwn dynnu sylw at her na chafodd ei nodi o'r blaen.

Mae'n debygol mai'r canfyddiad pwysicaf oedd mai dim ond cyllido sefydliadau a oedd wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Elusennau fel elusen y gallai'r mwyafrif (95% a throsodd) o Ymddiriedolaethau a Sefydliadau'r DU y gwnaethom eu hadolygu ei wneud. Nifer fach iawn hefyd a allai gyllido Cwmnïau Buddiannau Cymunedol a oedd wedi cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau gyda llai fyth yn gallu cyllido unrhyw fath o sefydliadau gwirfoddol nad oeddent wedi'u cofrestru.

Mae'r wybodaeth gan y Porth Data yn dangos bod Cymru yn cael ei gwasanaethu gan bron i 42,000 o sefydliadau gwirfoddol, gan gynnwys elusennau, grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, cwmnïau buddiannau cymunedol, grwpiau ffydd, cymdeithasau tai, sefydliadau cydfuddiannol, sefydliadau gwirfoddol, busnesau cymunedol, cwmnïau cydweithredol a grwpiau hunangymorth.




Dim ond 6,995 o'r grwpiau hyn sydd wedi'u cofrestru fel elusennau gyda chyfeiriad yng Nghymru.




At hyn, roedd ein hymchwil hefyd yn dangos bod gan rai cyllidwyr drothwy incwm lle byddant ond yn cyllido elusennau o faint canolig gydag incwm o fwy na £200,000 a chyllido sefydliadau sydd ag ôl-troed y DU/Cenedlaethol yn unig yn aml. At hyn, roedd yn arbennig o wir wrth i Ymddiriedolaethau a Sefydliadau gyllido meysydd megis cadwraeth, yr amgylchedd a'r celfyddydau.

Mae'r data ar Borth Data'r Sector Gwirfoddol hefyd yn ein helpu i ddeall yr hyn sy'n ffurfio'r trydydd sector yng Nghymru o ran incwm, sy'n rhoi esboniad pellach i ni pam na all y trydydd sector yng Nghymru ddenu cyllid gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau o'r tu allan i Gymru.

Mae incwm **86%** sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru yn llai na £100,000

Mae **53%** ohonynt yn feicro-elusennau gydag incwm islaw £10,000

Ystyrir fod **33%** ohonynt yn sefydliadau bach gydag incwm rhwng £10,000 a £100,000

**Sefydliadau yng Nghymru sy'n disgrifio eu hunain fel rhai lleol - yn gwasanaethu un sir neu lai**




Cymerodd 25 o sefydliadau ran mewn elfen Dysgu Gweithredol o'r Prosiect Ymddiriedolaethau a Sefydliadau hwn. Cafodd y sefydliadau gyfle i weld sut mae cyllidwyr yn cynnal eu gwiriadau diwydrwydd dyladwy a brofodd yn werthfawr iawn iddynt.

Cafodd pob un ohonynt gyfle i feithrin cydberthnasau gyda phum cyllidwr gwahanol er mwyn dysgu mwy am y cyllid sydd ar gael a'r meini prawf cymhwysedd mewn ffordd fwy cydlynol a phenodol wrth gysylltu â chyllidwyr i sgwrsio â nhw lle y bo'n bosibl.

Cefnogwyd y profiad a oedd gan y grwpiau yr hyn y gwnaethant ei ddysgu uchod, yn enwedig yr her o ddod o hyd i gyllid ar gyfer grwpiau nad ydynt wedi'u cofrestru fel elusennau.

> Rydym ni fel Cwmni Buddiannau Cymunedol wedi ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyllidwyr rydym yn gymwys ar eu cyfer. Gwnaethom gymryd rhan er mwyn helpu i ddod o hyd i gyllidwyr sy'n cefnogi Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, ond rydym nawr yn ystyried a ddylem newid i fod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol neu elusen gofrestredig.

> Roedd gennym ni fel Cwmni Buddiannau Cymunedol lai o ddewis o gyllidwyr i gysylltu â nhw.

## Astudiaeth Achos - Swansea MAD

**Cymerodd MAD Abertawe ran yn y prosiect Action Learning fel elusen sydd newydd ei chofrestru. Lawnswyd y sefydliad yn wreiddiol fel Cwmni Buddiant Cymunedol yn 2009, i ddarparu gofod stiwdio, offer a chefnogaeth am ddim i bobl ifanc a cherddorion yn Abertawe.**



Yn 2020, daeth MAD Abertawe yn Sefydliad Corfforedig Elusennol yn seiliedig ar asesiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr o amcanion a gweithgareddau'r sefydliad.

Cadarnhaodd Rachel Benson, Cyfarwyddwr Codi Arian a Chynaliadwyedd yr elusen, fod y statws newydd wedi cynnig mwy o gyfleoedd iddynt, nid yn unig o ran denu cyllid i'w helpu i gynnal a thyfu gwasanaethau ond hefyd i ddenu cefnogaeth ychwanegol i ddatblygu a chryfhau, y cyfeirir atynt yn aml fel cefnogaeth Funder Plus.

Dywedodd y grwpiau a gymerodd ran yn y prosiect dysgu gweithredol iddi fod yn broses anodd iawn ac wedi cymryd llawer o amser i ymchwilio i wefannau cyllidwyr er mwyn dod o hyd i feini prawf cymhwysedd. Gwnaethant hefyd ddweud nad oedd llawer o'r cyllidwyr wedi rhyngweithio â nhw. Nodwyd lle y rhyngweithiodd y cyllidwyr â nhw bod eu hymateb yn dda iawn, yn glir ac yn ddefnyddiol.

Rhoddodd adroddiad Sefydliad Garfield Weston, y soniwyd amdano uchod, nifer o argymhellion i gyllidwyr er mwyn gwella eu dull o roi cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru, gan gynnwys y canlynol:

- Rhoi grantiau datblygu sy'n cwmpasu ystod eang o gynnydd sefydliadol. Er enghraifft mae Sefydliad Lloyds Bank bellach yn cynnig grantiau i gefnogi datblygiad elusennau a hynny ochr yn ochr â chyllid arall yn aml, er mai ar gyfer grwpiau sydd wedi'u cofrestru fel elusennau gydag incwm o fwy na £25,000 y mae'r cyllid ar gael yn unig.
- Rhoi canllawiau cliriach ar yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn y 'costau craidd' a'r lefelau sy'n briodol i'w cynnwys mewn ceisiadau ar gyfer cyllid. Er enghraifft mae Plant Mewn Angen y BBC yn nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng costau prosiect a chostau craidd drwy raglenni grantiau gwahanol. Gall ymgeiswyr wneud cais am y naill neu'r llall, felly nid ydynt yn darparu canllawiau ar lefelau costau craidd ond, maent yn nodi na ellir defnyddio grantiau Plant Mewn Angen y BBC i gefnogi costau llawn modelau adenilliad.
- Gweithio gyda chyrff seilwaith i sicrhau y gallant ddarparu gwybodaeth lawn, gyfredol a hygyrch ar ystod o gyfleoedd cyllido a chyfeirio sefydliadau at ffynonellau perthnasol eraill. Er enghraifft, mae Cyllido Cymru yn darparu llyfrgell o wybodaeth am gyfleoedd cyllido ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Mae gan Charity Excellence gronfa ddata ardderchog i ddod o hyd i gyllid, yn ogystal ag adnodd llywodraethu ymddiriedolwyr ar-lein, rhestr wirio ar gyfer y tîm rheoli a llyfrgell o adnoddau.

# Casgliad

## Roedd yr hyn a ddysgwyd yn sgil ein Prosiect Ymddiriedolaethau a Sefydliadau yn cadarnhau bod angen mwy o gymorth o fewn y sector o ran cyngor ac arweiniad, gweithdai a chyfleoedd rhwydweithio.

Gwnaeth yr hyn a ddysgwyd ein helpu i lunio llyfrgell o gyngor ac arweiniad yn ein Pecyn Cymorth Grantiau a fydd, gobeithio, o help i grwpiau wrth iddynt wneud cais am gyllid, nid yn unig gan Sefydliad Cymunedol Cymru, ond gan gyllidwyr eraill hefyd. Bydd y Pecyn Cymorth hefyd yn ddefnyddiol y tu allan i oriau swyddfa, gan ein bod yn ymwybodol bod llawer o bobl yn gwneud eu gwaith ymchwil a chyflwyno ceisiadau yn ystod yr amseroedd hyn.

Nod gwaith rhoi grantiau Sefydliad Cymunedol Cymru yw cefnogi'r sefydliadau llai, ar lawr gwlad, sydd mor gyffredin yng Nghymru. Rydym yn gwybod pa mor werthfawr yw'r grwpiau hyn yng nghymunedau Cymru. Fel y gwelsom yn ystod y pandemig, gallant fod yn hyblyg ac ymateb yn gyflym i newid mewn anghenion a gallant wneud llawer heb fawr ddim. Mae Sefydliad Banc Lloyds wedi cwblhau ymchwil i elusennau Bach ond Hanfodol ac yn rhoi cyngor ar y ffordd orau i'w cefnogi.

Y trydydd sector yw'r glud sy'n cadw'n cymunedau gyda'i gilydd. Mae'n rhoi cymorth parhaus pan nad yw gwasanaethau statudol yn gwneud hynny ac mae ei hyblygrwydd a'i allu i addasu i anghenion pobl leol sy'n newid yn gyson yn golygu bod y ffocws, yn ddealladwy, ar ddarparu gwasanaeth er yr anfantais i'r sefydliad ei hun yn aml o ran cryfder llywodraethu a diogelu ar gyfer y dyfodol.

Mae angen gwneud mwy i gefnogi'r grwpiau bach hyn, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi cofrestru fel elusennau, er mwyn sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd ystyried llywodraethu effeithiol, codi arian ac uwchsgilio eu staff a'u hymddiriedolwyr i sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol.

# Beth nawr?

## Mae gennym OLL ran i'w chwarae i ddiogelu ein trydydd sector am genedlaethau i ddod.

P'un a ydych yn grŵp gwirfoddol, yn elusen, yn gyllidwr neu'n sefydliad seilwaith, gall pob un ohonom wneud rhywbeth i feddwl yn wahanol am y ffordd rydym yn gweithio, i fod yn gliriach yn ein ffordd o roi cyngor ac arweiniad a chynnig cymorth i helpu eraill.

### Argymhellion ar gyfer grwpiau'r Trydydd Sector yng Nghymru:



**Ystyried eich cryfderau a meysydd i'w datblygu**

Byddem yn eich annog i ystyried cryfderau eich grŵp a'r meysydd sydd angen eu datblygu.

- Edrychwch ar eraill, y tu allan i'ch sefydliad, i weld beth maent yn ei wneud ac ystyriwch a fyddai modd i chi weithio mewn partneriaeth â nhw i ychwanegu gwerth at waith eich gilydd a sut y byddech yn mynd ati i wneud hynny.

- Fel elusen o faint canolig sy'n gymwys i wneud cais am gyllid gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, mae'n bosibl i chi ystyried sut y gallwch wella'r effaith a gewch ar yr ardaloedd nad ydych yn eu gwasanaethu ar hyn o bryd drwy weithio gyda sefydliad bach neu feicro-sefydliad sy'n meddu ar brofiad a gwybodaeth helaeth am eu hardal leol neu am grŵp buddiolwyr penodol.

- Gall cyflwyno cynnig gyda partner i Gyllidwr, sy'n cynnwys costau ar gyfer y gwaith a gaiff ei gynnal gan y sefydliad/au llai, gael effaith mwy cadarnhaol, nid yn unig ar y buddiolwyr olaf ond hefyd ar y trydydd sector cyfan yng Nghymru. Cofiwch, fodd bynnag, bod partneriaeth lwyddiannus yn gweithio ddwy ffordd - rhannu adnoddau, osgoi tocynistiaeth, gwrando ar eich gilydd, bod yn onest a pharchus, ac yn bwysicaf oll, peidio â diystyru'r amser sydd ei angen arnoch i ddatblygu cydberthynasau gwerthfawr a chryf.

## Buddsoddi er mwyn sicrhau llywodraethu cryf

Mae ein Pecyn Cymorth Grantiau yn rhoi cyngor ac arweiniad ac yn cyfeirio at eraill a all eich helpu. Rhannwch y baich ymysg ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr.

- Gall asiantaethau seilwaith, megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, rhwydwaith CVC, Cwmpas, y Sefydliad Siartredig Codi Arian ac ati, roi cyngor ar y dull gweithredu gorau gan ddibynnu ar y ffordd rydych wedi ffurfio eich grŵp, neu'n bwriadu ffurfio eich grŵp.

# Nid ydym am stopio nawr.

Mae'n waith sy'n mynd rhagddo. Byddwn yn parhau i ddysgu a rhannu, mewn ymgynghoriad â'r grwpiau trydydd sector yng Nghymru rydym yn rhyngweithio â nhw.

Rydym am wneud mwy a byddwn yn croesawu adborth, yn dda neu ddim cystal, er mwyn ein helpu i lywio ein cefnogaeth mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag anghenion grwpiau cymunedol yng Nghymru.

Byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgir i ddylanwadu ar gyllidwyr a chyrff seilwaith i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion eich cymuned.

# Cydnabyddiaethau


**Aelodau'r grŵp cynghori**

Alun Evans, Cadeirydd - Sefydliad Cymunedol Cymru
Richard Williams - Sefydliad Cymunedol Cymru
Andrea Powell - Sefydliad Cymunedol Cymru
Carol Mack - Cymdeithas Sefydliadau Elusennol
Chris Buchan - Llywodraeth Cymru
Aaron Fortt - Llywodraeth Cymru
Bridget Kohner - Sefydliad Pears
Caroline Howe - Sefydliad Banc Lloyds
Rachel Marshall - Sefydliad Banc Lloyds
Rebecca Watkins - Sefydliad Moondance
Alison Pritchard - Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Sara Selleck - Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Helen Horn - Sefydliad Waterloo
Ceri Edwards - Y Sefydliad Codi Arian
Rob Roffe - Cronfa Gymunedol y Loteri Cenedlaethol
Paula Jewson - Unigolyn (di-gyswllt)
Gerry Jewson - Unigolyn (di-gyswllt)
Abigail Tweed - Unigolyn (di-gyswllt)

Gyda diolch i'n harianwyr - Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sefydliad Pears, Sefydliad Moondance a rhoddwyr unigol am roi eich ffydd yn y gwaith hwn. Heb eich cefnogaeth, ni fyddai'r prosiect hwn a'r effaith rydyn ni'n gobeithio y bydd y dysgu'n ei gael ar y trydydd sector yng Nghymru wedi bod yn bosib.

Gyda diolch i Yvonne Pillinger am ei chefnogaeth ac i Wavehill am werthuso elfennau Pears Action Learning o'r prosiect ehangach hwn.



Sefydliad Cymunedol Cymru
Tŷ St Andrews
24 St Andrews Crescent
Caerdydd
CF10 3DD
02920 379580
www.communityfoundationwales.org.uk
info@communityfoundationwales.org.uk